OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1721 (Cy.188)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	- -	*9 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Gorffennaf 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi ystyried, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, sy'n sefydlu yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac sy'n gosod gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch bwyd(**3**), ac yn unol ag adran 48(4) a 4(B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2003 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a gyfansoddwyd trwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**4**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a gyfansoddwyd trwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "Cyfarwyddeb 85/591/EEC" ("*Directive 85/591/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC sy'n ymwneud â chyflwyno dulliau'r Gymuned o samplo a dadansoddi ar gyfer monitro bwydydd y bwriadwyd i bobl eu bwyta(**5**);

(**1**) 1990 (p. 16).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ysgrifennydd Gwladol" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) 1984 (p.22).
(**5**) OJ Rhif L372, 31.12.85, t.50.

ystyr "Cyfarwyddeb 93/99/EEC" ("*Directive 93/99/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/99/EEC sy'n ymwneud â mesurau ychwanegol sy'n ymdrin â rheoli bwydydd yn swyddogol (**6**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau ar gyfer halogion penodedig mewn bwydydd(**7**)) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/27/EC(**8**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/22/EEC" ("*Directive 2001/22/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/22/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau plwm, cadmiwm, mercwri a 3-MPCD mewn bwydydd(**9**)) fel y'u cywirwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/873/EC(**10**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/26/EC" ("*Directive 2002/26/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/26/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau Ochratocsin A mewn bwydydd(**11**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/69/EC" ("*Directive 2002/69/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/69/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau deuocsinau a chanfod PCBs o fath deuocsin mewn bwydydd(**12**) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 20 Medi 2002(**13**)

ystyr "Cytundeb yr AEE" ("*the EEA Agreement*") yw Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(**14**)) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y'i haddaswyd gan y Protocol(**15**) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n Barti Contractio i Gytundeb yr AEE;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n nodi'r lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd(**16**)) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2001(**17**) ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2375/2001(**18**)), Rheoliad Comisiwn (EC) Rhif 221/2002(**19**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 257/2002(**20**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 472/2002(**21**) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2002(**22**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002(f) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2002(ff);

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd i'r geiriau cyfatebol yn Rheoliad y Comisiwn.

(**6**) OJ Rhif L290, 24.11.93, t.14.
(**7**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, t.93.
(**8**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44.
(**9**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.14
(**10**) OJ Rhif L325, 8.12.2001, t.34
(**11**) OJ Rhif L252, 20.9.2002, t.40.
(**12**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.3.
(**13**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.37.
(**14**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1 fel y'i mabwysiadwyd gan benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002 (OJ Rhif L266, 3.10.2002, t.30 ac atodiad AEE Rhif 49, 3.10.2002)..
(**15**) OJ Rhif L313, 30.11.2001, t.60 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002..
(**16**) OJ Rhif L321, 6.12.2001, t.1 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002.
(**17**) OJ Rhif L37, 7.2.2002, t.4 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 139/2002 (OJ Rhif L19, 23.1.2003, t.3 ac atodiad AEE Rhif 5, 23.1.2003).
(**18**) OJ Rhif L41, 13.2.2002, t.12 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 100/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.13 ac atodiad AEE Rhif 54, 31.10.2002, t.11).
(**19**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.18, fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002 (OJ Rhif L38, 13.2.2003, t.16 ac atodiad AAE Rhif 9, 13.2.2003, t.13).
(**20**) OJ Rhif L80, 23.3.2002, t.42.
(**21**) OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002..
(**22**) OJ Rhif L155, 14.6.2002, t.63 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002.

Tramgwyddau a chosbau

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 9 a 10, bydd person yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol os yw'r cyfryw berson —

(a) cyn 1 Ionawr 2005 —

(i) yn rhoi ar y farchnad unrhyw fwyd (heblaw am sbigoglys awdurdodedig neu letys awdurdodedig) sy'n cael ei gwmpasu gan Erthygl 1.1, 2.1, 2.2 neu 4.1 o Reoliad y Comisiwn fel y'u darllenir gydag Erthyglau 1.2 a 4.3 o'r Rheoliad hwnnw, ond nad yw'n bodloni gofynion yr Erthyglau hynny, neu

(ii) yn torri Erthygl 2.3 neu 4.2 neu 4a o Reoliad y Comisiwn;

(b) ar neu ar ôl 1 Ionawr 2005 —

(i) yn rhoi ar y farchnad unrhyw fwyd (heblaw am sbigoglys awdurdodedig) sy'n cael ei gwmpasu gan, ond nad yw'n bodloni gofynion, Erthygl 1.1, 2.1 neu 4.1 o Reoliad y Comisiwn, fel y'u darllenir gydag Erthyglau 1.2 a 4.3 o'r Rheoliad hwnnw; neu

(ii) yn torri Erthygl 2.3, 4.2 neu 4a o Reoliad y Comisiwn; neu

(c) yn torri hysbysiad a roddir o dan adran 9(2)(a) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir at ddibenion y Rheoliadau hyn gan reoliad 7(2), neu yn methu â chydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw, a hynny'n fwriadol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn —

(a) ystyr "sbigoglys awdurdodedig" ("*authorised spinach*") yw sbigoglys o'r math a bennir ym mhwynt 1.1 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, ac a dyfir yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r amod i Erthygl 3.1 o'r Rheoliad hwnnw ac y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl yno; a

(b) ystyr "letys awdurdodedig" ("*authorised lettuce*") yw letys o'r math a bennir ym mhwynt 1.3 neu ym mhwynt 1.4 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a dyfir yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r amod i Erthygl 3.1 o'r Rheoliad hwnnw ac y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl yno.

Gorfodi

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd yn ddyletswydd ar bob awdurdod iechyd porthladd i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw le nad yw wedi'i leoli yn ardal awdurdod iechyd porthladd, caiff y Rheoliadau hyn eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod bwyd ar gyfer yr ardal y mae'r lle hwnnw wedi'i leoli ynddi.

Addasu adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (caffael samplau) a dadansoddi samplau

5.—(1) Wrth ei chymhwyso at gymryd sampl o unrhyw fwyd a nodwyd yn adrannau 1 i 5 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, caiff adran 29 o'r Ddeddf ei haddasu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r pwer i gymryd samplau o dan is-adran (b) a (d) o'r adran honno gael ei arfer yn unol â'r dulliau o gymryd samplau a ddisgrifir neu y cyfeirir atynt yn —

(a) yn ddarostyngedig i'r gofyniad a bennir ym mharagraff (2) yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/63/EC sy'n sefydlu dulliau'r Gymuned o samplo ar gyfer rheoli'n swyddogol weddillion plaladdwyr mewn cynnyrch sy'n deillio o blanhigion ac o anifeiliaid ac arno, a diddymu Cyfarwyddeb 79/700/EC(**23**)), pan fo'r bwyd dan sylw yn ateb y disgrifiad a nodwyd yn Adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn y mae'r Gyfarwyddeb honno yn ymwneud â'i samplo yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(**23**) OJ Rhif L187, 16.7.2002, t.30.

(b) Atodiad I i Gyfarwyddeb 98/53/EC pan fo'r bwyd dan sylw yn ateb y disgrifiad a nodwyd yn Adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn y mae'r Gyfarwyddeb honno yn ymwneud â'i samplo yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(c) Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/26/EC pan fo'r bwyd dan sylw yn ateb y disgrifiad a nodwyd yn Adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn y mae'r Gyfarwyddeb honno yn ymwneud â'i samplo yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(ch) Atodiad I i Gyfarwyddeb 2001/22/EC pan fo'r bwyd dan sylw yn ateb y disgrifiad a nodwyd yn Adran 3 neu 4 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn y mae'r Gyfarwyddeb honno yn ymwneud â'i samplo yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw; a

(d) Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/69/EC pan fo'r bwyd dan sylw yn ateb y disgrifiad a nodwyd yn Adran 5 o Atodiad I i reoliad y Comisiwn y mae'r Gyfarwyddeb honno'n ymwneud â'i samplo yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw.

(2) Y gofyniad yw, yn achos letys o'r math a nodir ym mhwynt 1.3 neu 1.4 o Adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, isafswm nifer yr unedau sydd eu hangen ar gyfer pob sampl labordy fydd deg.

(3) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n cyfateb i ddisgrifiad y mae is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw yn ymwneud ag ef, a phan fo'r swyddog awdurdodedig hwnnw wedi cyflwyno'r sampl hwnnw i'w ddadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf bydd y person sy'n dadansoddi'r sampl yn sicrhau bod —

(a) y sampl yn cael ei baratoi yn unol â —

(i) paragraffau 1.1, 2 a 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn achos cnau cyflawn, paragraff 1.2 o'r Atodiad hwnnw;

(b) unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â'r dulliau dadansoddi sydd —

(i) i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, yn cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 85/591/EEC, a

(ii) yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ym mharagraff 4.3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC fel y'i darllenir gyda'r nodiadau i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC; ac

(ch) bod adroddiad ar ganlyniadau y dadansoddiad o'r sampl hwnnw —

(i) yn defnyddio'r diffiniadau ym mharagraff 4.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn unol â pharagraff 4.4 o'r Atodiad hwnnw.

(4) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n ateb y disgrifiad y mae is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw yn ymwneud ag ef, a phan fo'r swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno'r sampl hwnnw i'w ddadansoddi yn unol ag adran 39(1)(a) o'r Ddeddf bydd y person sy'n dadansoddi'r sampl yn sicrhau —

(a) bod y sampl yn cael ei baratoi yn unol â pharagraffau 1 i 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/26/EC;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â dulliau dadansoddi sy'n —

(i) cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC, a

(ii) bodloni'r meini prawf a nodwyd ym mharagraff 4.3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/26/EC fel y'i darllenir gyda'r nodiadau i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC; ac

(ch) bod adroddiad ar ganlyniadau'r dadansoddiad o'r sampl hwnnw —

(i) yn defnyddio'r diffiniadau ym mharagraff 4.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/26/EC, a

(ii) yn unol â pharagraff 4.4 o'r Atodiad hwnnw.

(5) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n ateb y disgrifiad y mae is-baragraff (d) o'r paragraff hwnnw yn ymwneud ag ef, a phan fo'r swyddog awdurdodedig hwnnw wedi cyflwyno'r sampl hwnnw i'w ddadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, bydd y person sy'n dadansoddi'r sampl yn sicrhau —

(a) bod y sampl yn cael ei baratoi yn unol â pharagraffau 1 a 2 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC, fel y'u darllenir, yn achos paragraff 2, gyda'r nodyn i'r paragraff hwnnw;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â'r dulliau dadansoddi sy'n —

(i) cydymffurfio, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 85/591/EEC,

(ii) wrth ddadansoddi ar gyfer plwm (ac eithrio mewn gwin), mercwri neu gadmiwm, yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ym mharagraff 3.3.1. o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC,

(iii) wrth ddadansoddi ar gyfer plwm mewn gwin, yn cydymffurfio â'r ail is-baragraff o baragraff 3.2 o'r Atodiad hwnnw, a

(iv) wrth ddadansoddi ar gyfer 3-MPCD, yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ym mharagraff 3.3.2 o'r Atodiad hwnnw fel y'i darllenir gyda'r nodyn i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC;

(ch) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn y fath fodd fel ei fod yn cydymffurfio ag is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff paragraff 3.4 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC, fel y'u darllenir yn achos yr ail is-baragraff gyda'r nodyn i'r is-baragraff hwnnw; a —

(d) bod adrodd ar ganlyniadau'r dadansoddiad o'r sampl hwnnw —

(i) yn defnyddio'r diffiniadau ym mharagraff 3.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC fel y'i darllenir gyda'r nodiadau i'r paragraff hwnnw, a

(ii) yn unol â thrydydd is-baragraff paragraff 3.4 ac â pharagraff 3.6 o'r Atodiad hwnnw.

(6) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n ateb y disgrifiad y mae is-baragraff (e) o'r paragraff hwnnw yn ymwneud ag ef, a phan fo'r swyddog awdurdodedig hwnnw wedi cyflwyno'r sampl hwnnw i'w ddadansoddi yn unol ag adran 30(1) (a) o'r Ddeddf, bydd y person sy'n dadansoddi'r sampl yn sicrhau —

(a) y caiff y sampl ei baratoi yn unol â pharagraff 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/69/EC, fel y'i darllenir gyda pharagraffau 1 a 2 yr Atodiad hwnnw;

(b) y bydd unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud —

(i) yn unol â dulliau dadansoddi sydd yn bodloni'r meini prawf a bennir ym mharagraffau 5, 6 a 7 Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/69/EC, fel y'u darllenir gyda pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad hwnnw, a